

Gwelliannau Trafnidiaeth - Darpariaethau Dros Dro

Beicffyrdd Dros Dro Llwybr Coch Heol Albany



Mesurau arfaethedig yn cael eu hystyried: Bydd y feicffordd dros dro yn cael ei gwahanu oddi wrth y ffordd gan gyrbau lled-barhaol ynghyd â bolardiau bach plastig fydd yn codi o'r ffordd, arwyddion a chyfnodau penodol i feiciau wrth gyffyrdd. Bydd beicwyr yn cael signalau traffig pwrpasol ar gyfer y feicffordd, a bydd disgwyl iddynt gadw at y goleuadau a Rheolau'r Ffordd Fawr fel bob amser.

Am fanylion gweler
Cynllun Wellfield Road



Beicffordd Dros Dro: Llwybr Coch Heol Albany

Ers dechrau'r cyfnod cloi a'r mesurau i gadw pellter cymdeithasol yn ystod pandemig Covid-19, mae capasiti trafndiaeth gyhoeddus wedi bodei gyfyngu'n sylweddol. Er mwyn hwyluso a galluogi mwy o deithiau, bydd cyfres dros dro a diogel o feicffyrdd yn cael eu lleoli ar hyd llwybrau strategol yn y ddinas. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau bod pob defnyddiwr ffordd yn ddiogel ac mae hyn yn cynnwys beicwyr newydd sy'n agored i niwed. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ymgysylltiad â Grŵp Ffocws Mynediad Caerdydd wedi'i gwblhau i gefnogi'r cynllun.

Y llwybr nesaf y byddwn yn delio ag ef yw Llwybr Coch Heol Albany.

Manylion y Llwybr

Cynigir i Gam 1 y Llwybr Coch gael ei osod ar hyd heol Albany o'r gyffordd â Heol y Plwca/Plas Mackintosh hyd at y gyffordd â Heol Wellfield. Er mwyn hwyluso'r llwybr, byddai'r parcio ar ochr ogleddol Heol Albany yn cael ei symud, byddai arosfannau bysiau'n cael eu cadw a lle bo angen, byddai cilfachau llwytho a'r cilfachau i'r anabl yn cael eu hadleoli ar yr ochr ddeheuol. Wrth y cyffyrdd, bydd signalau beicwyr yn cael eu hymgorffori lle bo angen.

Pryd

Mae'r cynlluniau'n nodi y gallai fod ar ddechrau 2021, yn amodol ar ymgysylltu llwyddiannus.

Busnes

Gall cyfarfodydd un-i-un gael eu trefnu gyda busnesau. Cysylltwch â GogleddCanolyDdinas@caerdydd.gov.uk

Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â: GogleddCanolyDdinas@caerdydd.gov.uk